

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

27.11.20

Etholiad Rhiant-Lywodraethwr: Papur Pleidleisio

Caiff y rhieni a enwebwyd ar gyfer etholiad eu rhestru ar y papur pleidleisio sydd ynghlwm. Amgaeir datganiadau personol a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr hefyd. Nifer y rhiant-lywodraethwyr i gael eu hethol ar yr achlysur hwn yw 3.

Dylech gyflwyno eich pleidlais drwy farcio **X** yn y blwch a ddarperir wrth ochr yr ymgeisydd o'ch dewis. Dim ond 1 pleidlais y gallwch gyflwyno. Mae gan bob rhiant yr hawl i roi un bleidlais.

Dylid dychwelyd y papur pleidleisio, mewn amlen wag wedi'i selio, yn y blwch pleidleisio ar gael yn swyddfa'r ysgol neu drwy un o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol erbyn dim hwyrach na **3.15 y.p. ar Ddydd Iau, Rhagfyr 3ydd, 2020**. Peidiwch â rhoi eich papur pleidleisio i aelodau o staff. Ni fydd papurau pleidleisio a geir ar ôl y dyddiad a nodir yn cael eu cyfrif. Rhaid i bleidleisiau gan bob rhiant gael eu gosod mewn amlen wag wedi'i selio ar wahân.

Bydd y pleidleisiau yn cael eu cyfrif yn yr ysgol ym mhresenoldeb person annibynnol ar **Ddydd Llun, Rhagfyr 7fed, 2020 am 10 o'r gloch**. Bydd yr etholiad yn cael ei benderfynu yn syml gan bleidlais y mwyafrif. Os bydd pleidlais gyfartal, dewisir ar hap i benderfynu ar y mater.

Yn ddiffuant,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth

Datganiadau personol a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr:

BETH WILLIAMS

Fy enw yw Beth Williams. Rydw i yn ymgeisio i fod yn rhiant llywodraethwr yn Ysgol I D Hooson. Rwy'n lleol i'r ardal ac wedi bod ar hyd fy oes. Rwy'n siaradwr Cymraeg rhugl. Rwy'n gweithio i GBSW fel athrawes, gyda llawer o gyfrifoldebau yn yr ysgol gan gynnwys arweinydd pwnc a gweithio'n effeithiol gyda llywodraethwyr ysgol.

Rwy'n gwneud cais oherwydd rwy'n teimlo bod gen i lawer iawn i'w gynnig i'r disgyblion sydd wrth wraidd yr ysgol ffyniannus a phoblogaidd hon. Hoffwn fod yn llais i ddisgyblion, rhieni a'r gymuned ehangach. Fel person agos atoch, credaf y gallaf ddefnyddio fy ngwybodaeth eang am addysg fel rhiant ac athro i weithio ar eich rhan i wneud ein hysgol y gorau y gall fod.

BETHAN FELL

Ysgrifennaf y datganiad cefnogol yma i amlinellu fy niddordeb mewn bod yn llywodraethwyr yr ysgol. Mae gen i ferch yn nosbarth Derbyn a theimlaf fod gen i lot i gynnig i'r ysgol o safbwynt rhiant. Teimlaf fod fy mhrofiad o weithio yn yr ysgol a fy nghefnidir o fyd Addysg yn werthfawr iawn ar gyfer y rôl er mwyn cefnogi'r ysgol. Bum yn aelod o gymdeithas rhieni ac athrawon am 4 mlynedd lle cefais gyfle i weithio gyda grŵp o rieni i godi arian er mwyn datblygu'r ysgol ymhellach. Mae ethos yr ysgol yn agos iawn at fy nghalon, a theimlaf y byswn yn aelod gwerthfawr o'r corff llywodraethol pe bawn yn cael fy ethol.

AMANDA RICHARDS

Bydd gallu bod yn llywodraethwr ysgol yn Ysgol ID Hooson yn gyfle anhygoel ac yn defnyddio fy sgiliau, profiad a brwdfrydedd. Ar ôl ymddeol o waith llawn amser fel Cyfarwyddwr Prosiect Ymgynghorol i gwmnïau fel LEGO Education i ganolbwyntio ar ddechrau fy nheulu, mae gen i amser rhydd nawr. Rwy'n gyfarwydd â phwyllgorau, gweithio mewn tîm a gwneud penderfyniadau, gan ddal rolau Cadeirydd Grŵp Llywio Llwyneinion, Cadeirydd Cyfeillion Neuadd Blwyf Rhostyllen a phrofiad fel cyn Cynghorydd Cymunedol ar gyfer Esclusham. Byddwn i wrth fy modd yn cyfrannu at yr ysgol sy'n helpu ein plant i wireddu eu potensial. Rwy'n ddysgwr Cymraeg brwd ac yn dyheu am fod yn rhugl.

JOSHUA ROBERTS

Cefais y fraint o fod yn rhiant-lywodraethwr yn Ysgol ID Hooson am y 3 blynedd diwethaf. Mae wedi bod yn fraint cael gweithio gyda'r llywodraethwyr eraill a staff yr ysgol. Yn dod o America, rydw i wedi mwynhau dysgu sut mae'r ysgol yn gweithio a helpu mewn unrhyw ffordd rydw i'n gallu.

Mae fy mlentyn hynaf wedi gorffen yn Hooson ac wedi mynd ymlaen i Ysgol Morgan Llwyd ac ar hyn o bryd mae gen i dri o blant wedi cofrestru yn Hooson. Rwy'n credu bod Hooson yn ysgol wych gyda chyfadran a staff gwych. Byddai'n fraint ac yn anrhydedd i mi barhau i'ch cynrychioli chi a'ch plant yn Ysgol ID Hooson ar gorff llywodraethu'r ysgol.

YSGOL ID HOOSON

ETHOLIAD RHIAN LYWODRAETHWR: PAPUR PLEIDLEISIO

CEWCH BLEIDLEISIO AM DDIM MWY NA UN YMGEISYDD

	Enwebai Rhiant Lywodraethwr - Enw Llawn	PLEIDLAIS (nodwch gyda X)
1	BETH WILLIAMS	
2	BETHAN FELL	
3	AMANDA RICHARDS	
4	JOSHUA ROBERTS	

Dylid dychwelyd y papur pleidleisio, mewn amlen wag wedi'i selio, yn y blwch pleidleisio ar gael yn swyddfa'r ysgol neu drwy un o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol.

**SYLWER: Rhaid dychwelyd pob papur pleidleisio dim hwyrach na
3.15 Y.P. AR DDYDD IAU, RHAGFYR 3YDD, 2020**

Ni fydd papurau pleidleisio a geir ar ôl yr amser a'r dyddiad hwn yn cael eu cyfrif.